CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Nos Fawrth, 8 Medi 2026, am 7.30 o'r gloch
Neuadd Bentref Llanelltyd

Cofnodion

Presennol:

Gareth Ellis, Eleri Jones, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Llinos Rowlands a Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

Ymddiheuriadau:

Simon Evans, Gwenan Owen

1. Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Gorffennaf, 2026

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

4. Materion yn Codi o'r Cofnodion Gorffennaf, 2026

- Trafodwyd y prosiect Cyfoethogi Bro, Rhan Dau, gan gynnwys prynu'r hysbysfyrddau am £3,270 + £656 TAW a £10 cludo. Cytunodd y Cyngor y gall Mari fynd ymlaen i archebu'r hysbysfyrddau.

5. Adroddiad y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

6. Materion Ariannol

- Talwyd £4,011.51 i Mari drwy siec am gostau'r prosiect Cyfoethogi Bro, Rhan Dau (hysbysfyrddau).
- Talwyd cyflog y Clerc o £430.40, gan gynnwys cyflog y mis blaenorol.

7. Archwilio

Dim diweddariadau newydd.

8. Mynwent Llanelltyd

- Trafodwyd y cais i adolygu'r ffi gladdu ar gyfer Ann Llwynwen Humphreys. Penderfynwyd bod y ffi yn safonol ac nad oedd modd ei thrafod.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- Cafwyd trafodaeth ynghylch adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r opsiynau ar gyfer Farchynys yn y dyfodol. Cadarnhawyd bod y Cyngor a'r Parc yn hapus i gydweithio i ystyried yr opsiynau ar gyfer y dyfodol.

10. Gohebiaeth

Dim gohebiaeth newydd.

11. Bioamrywiaeth

Dim diweddariadau newydd.

12. Ffyrdd a Llwybrau

Dim diweddariadau newydd.

13. Materion eraill

- Ymunodd Jo Pike â'r cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer dyfodol Neuadd Bontddu. Cytunwyd y byddai Mari yn paratoi llythyr ar ran y Cyngor i fynegi cefnogaeth i'r cynlluniau.